# Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

# Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ebrill, 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | T Ll Hughes MBE (Cadeirydd)<br><br>Lewis Davies, John Griffith, Richard Griffiths, G O Jones, R.Meirion Jones, Eric Wyn Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, R G Parry OBE FRAgS, Shaun James Redmond, Dylan Rees, J A Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas a Robin Williams |
| **WRTH LAW :** | Ysgrifennydd,<br>Trysorydd.<br><br>**Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt yma yn ôl teitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Swyddog Grantiau (JW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | R Dew, Glyn Haynes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Ll Jones, A M Jones, Richard Owain Jones a Dafydd Roberts |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |

---

Gan fod yr Is-gadeirydd wedi ymddiheuro na fyddai'n bresennol yn y cyfarfod, cytunwyd y dylid penodi Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn. Cafodd y Mr Dylan Rees ei ethol fel Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig.

## 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Cafwyd y datganiadau o ddiddordeb canlynol :-

Bu Mr Richard Griffiths ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 5 – Ceisiadau Grantiau Mawr 2018/19 – Cais 7 Cymdeithas Dreftadaeth Diwydiannol Amlwch.

Bu Mr Trefor Ll Hughes ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 5 – Ceisiadau Grantiau Mawr 2018/19 – Cais 19 Pum Cyngor Tref Ynys Môn.

Bu Mr R Meirion Jones ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 5 – Ceisiadau Grantiau Mawr 2018/19 – Cais 14 Band Biwmares a Chais18 Cwmni'r Fran Wen.

Bu Mr Bryan Owen ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 5 – Ceisiadau Grantiau Mawr 2018/19 – Cais 6 Tudur Cyf.

Bu Mr Dylan Rees ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 5 – Ceisiadau Grantiau Mawr 2018/19 – Cais 19 Pum Cyngor Tref Ynys Môn a Cais 25 Gobaith Môn.

Bu Mrs Nicola Roberts ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 5 – Ceisiadau Grantiau Mawr 2018/19 – Cais 19 Pum Cyngor Tref Ynys Môn.

Bu Mr Robin Williams ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 5 – Ceisiadau Grantiau Mawr 2018/19 – Cais 19 Pum Cyngor Tref Ynys Môn.

## 2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol fel rhai cywir :-

- Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 28 Chwefror, 2018.
- Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 27 Mawrth, 2018.

## 3 ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL

**Pwyllgor Adfywio**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol fel cofnod cywir :-

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror, 2018.
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth, 2018.

## 4 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol :-**

**"O dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd fel y cyflwynwyd nhw."**

## 5 CEISIADAU AM GRANTIAU MAWR 2018/19

Adroddodd y Trysorydd bod cyfanswm o 34 o geisiadau grant wedi dod i law a oedd yn werth £1,467,487m i gyd. Cytunodd y Pwyllgor Adfywio ar 14 Chwefror, 2018 ar restr fer o geisiadau a nodwyd y rhai hynny lle roedd angen gwybodaeth ychwanegol gan yr ymgeiswyr. Ar 13 Mawrth, 2018 fe ystyriodd y Pwyllgor Adfywio'r ceisiadau ar y rhestr fer ynghyd â'r wybodaeth ychwanegol a lefel y cyllid y dylid argymell ei gymeradwyo. Penderfynwyd y dylid cyfeirio 14 cais i'r Ymddiriedolaeth Lawn ar gyfer eu cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Adfywio a gynhaliwyd ar 13 Mawrth, 2018 fel â ganlyn:-**

- **Prosiectau a gymeradwywyd**

| Ymgeisydd | Prosiect | Swm a Gymeradwywyd |
|---|---|---|
| **Clwb Pêl-droed Cemaes** | **Llifoleuadau newydd ar y cae hyfforddi** | **£37,170**<br><br>(gydag ar amod i beidio â thalu unrhyw grant tan bod tîm hŷn wedi'i ail sefydlu) |
| **Neuadd Bentref Aberffraw** | **Creu toiled cyhoeddus a maes parcio newydd** | **£43,100** |
| **Cyngor Ar Bopeth** | **Cefnogaeth i gostau rhedeg craidd** | **£39,794** |
| **Neuadd Bentref Llanfairynghornwy** | **Cyllid ychwanegol ar gyfer gwaith ar du allan yr adeilad** | **£26,388** |
| **Banc Bwyd Ynys Môn** | **Prynu car trydan newydd er mwyn gallu danfon bwyd, talebau tanwydd a danfon pobl i'r ysbyty** | **£20,000** |
| **Tudur Cyf** | **Gwelliannau i do Canolfan Ebeneser** | **£6,000** |

| | | |
|---|---|---|
| **Cymdeithas Dreftadaeth Ddiwydiannol Amlwch** | **Ail-wynebu'r Maes Parcio i Ymwelwyr ynghyd ag arwyddion a rhwystr mynediad** | **£66,414** |
| **Beiciau Gwaed Cymru** | **Prynu beic modur newydd** | **£7,590** |
| **Clwb Rygbi Llangefni** | **Adeiladu stand a mannau ymochel (dugouts) newydd** | **£18,000** |
| **Ffrindiau Moelfre** | **Adnewyddu ac ehangu'r maes parcio sy'n berchen i'r Cyngor Cymuned** | **£26,900** |
| **Côr Ieuenctid Môn** | **Sefydlu canolfan ar gyfer y Côr** | **£13,762** |
| **Ymddiriedolaeth Colofn Môn** | **Angen cyllid i gyflogi cwmni ymgynghori i ysgrifennu cais am arian Loteri Treftadaeth** | **£10,000** |
| **Neuadd Goffa Bodwrog** | **Atgyweiriadau a gwelliannau i gyfleusterau'r Neuadd** | **£24,650** |
| **Band Biwmares** | **Cyllid i gefnogi costau fel y gall y Band ieuenctid fynychu cystadleuaeth fawr.** | **£10,000** |

- **Bod yr Ymddiriedolaeth yn dirprwyo'r awdurdod i'r Trysorydd i gysylltu â'r ymgeiswyr aflwyddiannus yn nodi'r rhesymau pam nad oedd eu cais yn llwyddiannus.**

- **Bod yr Ymddiriedolaeth yn dirprwyo'r awdurdod i'r Trysorydd anfon llythyr cynnig ffurfiol at yr ymgeiswyr llwyddiannus.**

**Mr Trefor Ll Hughes**
**Cadeirydd**